Ymddiswyddodd y Dr Gwenllïan Lansdown fel Prif Weithredwr ar 31 Mai 2011. Penodwyd ei holynydd, Rhuanedd Richards, a daw i'w swydd ar 1 Medi 2011.

Strwythur Gweithredol

Rheolir gweithgareddau ariannol beunyddiol Plaid Cymru gan y Prif Weithredwr Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cyfarfod bob mis ac yn gyfrifol am fonitro a chyfarwyddo cyllid y blaid. Bydd y Pwyllgor Cyllid yn adrodd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Gwaith Cenedlaethol. Bydd y Gynhadledd yn cymeradwyo'r cyfrifon blyneddol, a'r Cyngor Cenedlaethol sy'n cymeradwyo'r gyllideb flynyddol.

Mae gan Blaid Cymru 43 o unedau cyfrifo cofrestredig. Gostyngwyd nifer yr unedau cyfrifo yn 2010 pryd y cymerwyd yr adrannau a'r rhanbarthau i mewn i'r uned gyfrifo genedlaethol (Y Blaid yn Ganolog).

Gweithgareddau Gwleidyddol yn ystod y flwyddyn

Dychwelwyd tri AS dros Blaid Cymru yn Etholiad Cyffredinol y DG a gynhaliwyd y Mai 2010.

PLAID CYMRU

Adroddiad Swyddogion y Blaid Am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010

ADOLYGIAD Y PRIF WEITHREDWR

Yn yr oes hon o etholiadau blynyddol, 2010 oedd tro Etholiad Cyffredinol y DG gyda 40 AS wedi eu hethol ar ran etholwyd Cymru.

Wrth i ni nesáu at etholiad cenedlaethol 2011 yng Nghymru, yr oedd etholiad San Steffan yn heriol.

Dychwelodd Plaid Cymru dri AS gyda Hywel Williams yn ennill sedd newydd Arfon, Jonathan Edwards yn cael ei ethol yn Nwyrain Caerfyrddin a Dinefwr ac Elfyn Llwyd yn dychwelyd i wasanaethu etholwyr yn Nwyfor Meirionnydd.

Er hynny, yr oedd hyn yn etholiad heriol i Blaid Cymru gyda'r enillion disgwylidig (yn dilyn canlyniadau'r etholiadau Cyngor yn 2008 ac etholiad Ewropeaidd 2009) heb ddigwydd.

yn 2010, parhaodd y blaid i wneud cynnydd o ran buddsoddiadau allweddol.

Ymysg y rhain yr oedd parhau gwaith yr Uned Ddatblygu i ddatblygu strwythurau'r blaid mewn rhannau o Gymru lle bu'r drefniadaeth yn draddodiadol wan, a phenodi Swyddog y Wasg a Chyfathrebu i ganolbwyntio ar ein presenoldeb ar-lein. Fel arall, yr oedd adnoddau wedi eu targedu ar seddi ffocws er myn cynnal ymgyrchu'r blaid ar lawr gwlad.

Mae parhau i bwysleisio codi arian a'r cynnydd mewn incwm aelodaeth diolch i Ddebyd Uniongyrchol yn yr un modd wedi golygu y gall barhau i fuddsoddi yn ei seilwaith ymgyrchu yn enwedig o ran arloesedd a thechnoleg newydd, gan gynnwys gwefan newyddi yn lle gwefan y blaid ac amrywiol fân wefannau.

Yr oeddem hefyd wedi gallu parhau i fuddsoddi mewn ymgyrchu ar lawr gwlad, gyda help ariannol er mwyn sicrhau ymgyrch mor broffesiynol ag sydd modd.

Fel erioed, mae'n bwysig cydnabod gwaith caled a diwydrwydd ein haelodaeth, yr Aelodau Etholedig a'r staff. Heb eu cefnogaeth hwy, allai'r blaid ddim gweithredu fel y gwnaiff.

Dr Gwenllïan Lansdown
Prif Weithredwr

PLAID CYMRU

Adroddiad y Trysorydd am y flwyddyn yn diweddau 31 Rhagfyr 2010

Cyflwynir Cyfrifon Blynyddol 2010 yma. Tra bod sail asedau'r Blaid yn dal yn weddol gryf, dengys y cyfrifon hyn rai o'r heriau ariannol mawr sy'n wynebu Plaid Cymru. Er bod incwm aelodaeth wedi cynyddu yn sylweddol, llwyddwyd i wario ar ymgyrchu yn unig oherwydd llawer o gymynroddion hael iawn.

Yn y tymor hir, rhaid i gyfrifon y Blaid ddychwelyd i fod yn wastad er mwyn adeiladu "cist ymgyrch" cyn Etholiadau Cynulliad Cenedlaethol 2016. Rhaid i ni hefyd ystyried strwythur ariannol y Blaid ar lefel leol. Rhaid i ni fod mewn sefyllfa i ddeall pam fod Etholaethau gydag aelodaeth debyg mor wahanol eu perfformiad ariannol. Mae rhai yn cyfrannu'n hael at y blaid yn genedlaethol ac yn gallu ymgyrchu'n effeithiol trwy gydol y flwyddyn. Nid oes gan eraill, mewn meysydd lle'r ydym yn etholiadol gryf, y gallu ariannol i ymladd ymgyrched etholiadol effeithiol.

Rwy'n falch bod y Blaid wedi penderfynu cynnal adolygiad o'i gweithrediadau o'r bôn i'r brig yng ngoleuni canlyniadau etholiad 2011. Rhaid i gyllid a threfniadaeth y Blaid fod yn rhan allweddol o'r adolygiad hwn.

Carwn dalu teyrnged i waith y cyn-Brif Weithredwr Dr Gwenllïan Lansdown a dymuno'n dda iddi am y dyfodol. Yr wyf yn arbennig o ddyledus i aelodau Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau'r Blaid, sydd yn parhau i chwarae rhan lawn a gweithgar yn rheoli cyllid y Blaid o fis i fis.

Ar nodyn personol, carwn hefyd dalu teyrnged i Nigel Bevan – ein swyddog cyllid o 2004 i 2011. Gwnaeth Nigel gyfraniad enfawr i redeg effeithiol y Blaid yn genedlaethol a bu'n ffynhonnell werthfawr o gyngor a chyfarwyddyd i mi, fel Prif Weithredwr ac yn fwy diweddar fel Trysorydd Cenedlaethol.



David Trystan Davies
Trysorydd Cenedlaethol

PLAID CYMRU

Datganiad o gyfrifoldebau'r Trysorydd am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

Mae Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 yn mynnu bod Trysorydd y blaid yn paratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol sydd yn rhoi golwg gywir a theg o gyflwr y blaid a'i gwarged neu ddiffyg am y cyfnod hwnnw. Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hynny, mae gofyn i'r trysorydd wneud y canlynol:

- dewis polisiâu cyfrifo addas a'u cymhwyso yn gyson;
- dod i farn a gwneud amcangyfrifon sydd yn rhesymol ac yn ddarbodus;
- dweud a ddilynwyd safonau cyfrifo cymwys, yn amodol ar unrhyw amrywiadau perthnasol a ddatgelwyd ac a esboniwyd yn y datganiadau ariannol; a
- paratoi'r datganiadau ariannol ar sail cwmni gweithredol onid yw'n amhriodol rhagdybio y bydd y blaid yn parhau mewn busnes.

Mae Adran 41 y Ddeddf yn mynnu bod y Trysorydd yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifo cywir sydd yn datgelu yn rhesymol fanwl a chywir ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol y blaid ar yr adeg honno, a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r Ddeddf. Mae Adran 43 y Ddeddf yn mynnu bod y trysorydd yn gyfrifol am gyflwyno'r datganiad cyfrifon i'r Comisiwn Etholiadol erbyn y terfyn amser a nodwyd.

At Drysorydd Plaid Cymru

Yr ydym wedi archwilio datganiadau ariannol Plaid Cymru am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010 sef y cyfrif Incwm a Gwariant Cyfun, Datganiad Enillion a Chollledion y Blaid yn Ganolog, Y Datganiad Cyfun Elw a Chollled Cydnabyddedig, nodyn Cost Hanesyddol Cyfun Elw a Chollled, Nodyn Cost Hanesyddol Elw a Chollled, Y Datganiad Elw a Chollled Cydnabyddedig, y Fantolen Gyfun, Mantolen y Blaid yn Ganolog, y Datganiad Llif Arian Cyfun a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn dan y confensiwn cost hanesyddol a'r polisiau cyfrifo a osodir allan ar dudalennau 12-13.

Gwneir yr adroddiad hwn yn unig i drysorydd cofrestredig Plaid Cymru yn unol â rheolau'r Blaid ac adran 43 Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Cynhaliwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni ddatgan wrth y Trysorydd y materion hynny y mae gofyn i ni eu datgan wrtho mewn adroddiad archwiliwr ac nid at unrhyw ddiiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ymgymryd â chyfrifoldeb i unrhyw un ac eithrio'r Trysorydd am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn, nac am y farn y daethom iddi.

Cyfrifoldebau trysoryddion cofrestredig ac archwilywyr

Mae cyfrifoldebau'r Trysorydd cofrestredig am baratoi'r adroddiad blynyddol a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith gymwys a Safonau Cyfrifo'r Deyrnas Gyfunol wedi eu gosod allan yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Trysorydd.

Ein cyfrifoldeb ni yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â'r gofynion cyfreithiol a rheolaethol perthnasol a Safonau Archwilio Rhyngwladol.

Adroddwn i chi ein barn ynglyn ag a yw'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg ac a ydynt wedi eu paratoi yn unol â Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 a'r Canllaw i Ddatganiad Cyfrifon a chyfarwyddyd arall a gyhoeddir gan y Comisiwn Etholiadol dan hynny. Adroddwn i chi hefyd os, yn ein barn ni, nad yw'r Trosolwg yn gyson â'r datganiadau ariannol, oni chadwodd y blaid gofnodion cyfrifo cywir neu oni dderbyniasom yr holl wybodaeth a'r esboniadau y mae gofyn i ni eu cael ar gyfer ein harchwiliad.

Byddwn yn darllen y wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol, ac yn ystyried a yw'n gyson â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd. Adroddiad Swyddogion y Blaid yw'r unig wybodaeth arall. Byddwn yn ystyried yr oblygiadau ar gyfer ein hadroddiad os digwydd i ni ddod yn ymwybodol o unrhyw beth sy'n ymddangos fel camddatganiadau neu anghysonderau sylweddol yn y datganiadau ariannol. Nid yw ein cyfrifoldebau yn ymestyn at unrhyw wybodaeth arall.

Sail barn archwilio

Cynnalasom ein harchwiliad yn unol â Safonau Archwilio'r Deyrnas Gyfunol a gyhoeddir gan y Bwrdd Arferion Archwilio. Mae archwiliad yn cynnwys archwilio, fel prawf, tystiolaeth sydd yn berthnasol i'r symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol. Mae hefyd yn cynnwys asesiad o'r amcangyfrifon a'r farn sylweddol a wnaed gan y trysorydd cofrestredig wrth baratoi'r datganiadau ariannol, ac a yw'r polisiau cyfrifo yn briodol i amgylchiadau'r blaid, yn cael eu cymhwyso'n gyson a'u datgelu yn ddigonol.

Cynlluniasom a chynnal ein harchwiliad er mwyn cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau a oedd yn ein barn ni yn angenrheidiol er mwyn darparu digon o dystiolaeth i roi sicrwydd rhesymol i ni bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiadau perthnasol, boed hynny wedi ei achosi gan dwyll neu afreoleidd-dra neu wallau eraill. Wrth ddod i'n barn, buom hefyd yn gwerthuso digonoldeb cyffredinol cyflwyno'r wybodaeth yn y datganiadau ariannol.

Barn

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg o gyflwr materion ariannol y blaid fel ar 31 Rhagfyr 2010 a'i ddiffyg am y flwyddyn yn diweddu bryd hynny ac fe'u paratowyd yn gywir yn unol â'r polisiau cyfrifo sydd ar dudalennau 12-13 a gofynion Deddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000.



KTS OWENS THOMAS CYFYNGEDIG
Cyfrifwyr Siartredig ac Archwilydd Cofrestredig
Y Ty Cyfrif
Porth Celtaidd
Caerdydd
CF11 0SN

Dyddiad: 22.6.11

PLAID CYMRU

Cyfrif Incwm a Gwariant Cyfun am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

	Nodyn	2010 £	2009 £
INCWM	1		
Incwm Rhoddion	2	122,057	118,446
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifiadau		116,204	98,111
Incwm o weithgareddau codi arian	3	24,132	31,517
Incwm o weithgareddau masnachol	4	12,509	8,950
Incwm o gymynroddion		60,496	216,366
Incwm Buddsoddiadau	5	12,000	13,200
Incwm Grant	6	147,414	156,612
Incwm o Gynadleddau		74,259	69,753
Incwm mewn enw	7	16	25
Incwm Arall	9	98,027	85,825
Cyfanswm Incwm		667,114	798,805
GWARIANT			
Cost gweithgareddau codi arian	10	11,912	13,095
Cost gweithgareddau masnachol		16,972	23,861
Gwariant mewn enw		16	25
Costau Staff	11	415,333	353,842
Dadbrisió		18,767	19,697
Nam asedau sefydlog	16	86,969	-
Gwariant Ymgyrchoedd	12	189,480	171,350
Llog a Thaliadau Taladwy	14	7,587	5,268
Gwariant y Gynhadledd		62,295	67,725
Gwariant Arall	13	123,377	114,119
Cyfanswm Gwariant		932,708	768,982
(Diffyg) / Gwarged cyn trethiant		(265,594)	29,823
Trethiant	15	24,542	6,851
(Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn	20	(241,052)	36,674

Datganiad Cyfun Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

Nid oedd enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar wahân i'r (Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn.

Nodyn am gost elw a cholledion hanesyddol cyfun

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y (Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn a'r hyn sydd yn cyfateb iddynt mewn cost hanesyddol.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 20 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

PLAID CYMRU

Cyfrif Incwm a Gwariant y Blaid yn Ganolog am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

	Nodyn	2010 £	2009 £
INCWM	1		
Incwm Rhoddion	2	122,057	118,446
Ffioedd aelodaeth a thanysgrifiadau		111,292	98,111
Incwm o weithgareddau codi arian	3	24,132	31,517
Incwm o weithgareddau masnachol	4	12,509	8,950
Incwm o gymynroddion		60,496	216,366
Incwm Buddsoddiadau	5	12,000	13,200
Incwm Grant	6	147,414	156,612
Incwm o Gynadleddau		73,704	69,753
Incwm mewn enw	7	16	25
Incwm Arall	9	89,194	85,825
Cyfanswm Incwm		652,814	798,805
GWARIANT			
Cost gweithgareddau codi arian	10	11,912	13,095
Cost gweithgareddau masnachol		16,972	23,861
Gwariant mewn enw		16	25
Costau Staff	11	415,333	353,842
Dadbrisió		18,767	19,697
Nam asedau sefydlog	16	86,969	-
Gwariant Ymgyrchoedd	12	187,730	171,350
Llog a Thaliadau Taladwy	14	7,555	5,268
Gwariant y Gynhadledd		60,584	67,725
Gwariant Arall	13	119,040	114,119
Cyfanswm Gwariant		924,878	768,982
(Diffyg) / Gwarged cyn trethiant		(272,064)	29,823
Trethiant	15	24,542	6,851
(Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn	20	(247,522)	36,674

Datganiad Enillion a Cholledion Cydnabyddedig

Nid oedd enillion a cholledion cydnabyddedig eraill ar wahân i'r (Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn.

Nodyn am gost elw a cholledion hanesyddol

Nid oes gwahaniaeth sylweddol rhwng y (Diffyg Net) / Gwarged Net am y flwyddyn a'r hyn sydd yn cyfateb iddynt mewn cost hanesyddol.


Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 20 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

PLAID CYMRU

**Mantolen Gyfun
fel ar 31 Rhagfyr 2010**

	Nodiadau	2010 £	2009 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	16	386,603	473,439
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	17	65,402	130,681
Arian yn y banc ac mewn llaw		17,050	43,847
		82,452	174,528
CREDYDWYR			
Symiau yn dod yn ddyledus ymhen un flwyddyn	18	(90,120)	(36,410)
(RHWYMEDIGAETHAU) / ASEDAU CYFREDOL NET		(7,668)	138,118
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		378,935	611,557
WRTH GEFN			
Cronfa gyffredinol wrth gefn	20	375,703	608,325
Cronfa wrth gefn yr uned ddatblygu polisi	20	3,232	3,232
WRTH GEFN	20	378,935	611,557

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar 29/6/11.....a llofnodwyd ar eu rhan gan:




Trysorydd

PLAID CYMRU

**Mantolen y Blaid yn Ganolog
fel ar 31 Rhagfyr 2010**

	Nodyn	2010 £	2009 £
ASEDAU SEFYDLOG			
Asedau diriaethol	16	386,603	473,439
ASEDAU CYFREDOL			
Dyledwyr	17	65,402	130,681
Arian yn y banc ac mewn llaw		2,150	43,847
		<u>67,552</u>	<u>174,528</u>
CREDYDWYR			
Symiau yn dod yn ddyledus ymhen un flwyddyn	18	(90,120)	(36,410)
(RHWYMEDIGAETHAU) / ASEDAU CYFREDOL NET		<u>(22,568)</u>	<u>138,118</u>
CYFANSWM ASEDAU LLAI RHWYMEDIGAETHAU CYFREDOL		364,035	611,557
WRTH GEFN			
Cronfa gyffredinol wrth gefn	20	360,803	608,325
Cronfa wrth gefn yr uned ddatblygu polisi	20	3,232	3,232
WRTH GEFN	20	<u>364,035</u>	<u>611,557</u>

Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Swyddogion y Blaid ar...29/6/11.....a llofnodwyd ar eu rhan gan:



Trysorwr

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 20 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

PLAID CYMRU**Datganiad Llif Arian Cyfun
31 Rhagfyr 2010**

	Nodiadau	2010 £	2009 £
Llif arian net (allan) / i mewn o Weithgareddau'r Blaid	21	(76,518)	9,747
Enillion ar Fuddsoddi a Gwasanaethu Cyllid Llog a dalwyd		(7,587)	(5,268)
Trethiant Ad-daliad treth gorfforaeth y DG / (talwyd)	15	26,481	(50,528)
Gwariant Cyfalaf a Buddsoddiad Ariannol Prynu Asedau Sefydlog Diriaethol	16	(18,900)	(6,741)
Caffael a Gwaredu Arian net a gafwyd ar reoli rhanbarthau ac adrannau		8,431	
Cyllido Ad-dalu Benthyciadau	22	—	<u>(5,324)</u>
Gostyngiad mewn arian yn y flwyddyn	23	(68,093)	<u>(58,114)</u>

Mae'r nodiadau ar dudalennau 12 i 20 yn ffurfio rhan o'r datganiadau ariannol hyn.

**Nodiadau am y datganiadau ariannol
am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010**

I. POLISIAU CYFRIFO

Sylfaen paratoi

Nid yw Plaid Cymru wedi ei hymgorffori mewn cyfraith ac nid yw felly wedi ei rhwymo gan Ddeddf Cwmniâu 2006. Mae gofyn i'r blaid baratoi datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 ('PPERA').

Paratowyd y datganiadau ariannol dan y confensiwn cost hanesyddol yn unol â'r safonau cyfrifo cymwys a'r Nodiadau Canllaw i'r Datganiad Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Etholiadol.

Fel gyda phleidiau gwleidyddol eraill, mae Plaid Cymru yn dibynnu ar incwm aelodaeth a chodi arian i ateb cyfran fawr o'i gwariant, gan gynnwys y rhan fwyaf o'i gwariant nad yw'n wariant cylchol. Mae'r Blaid hefyd yn derbyn rhoddion gan gefnogwyr y blaid. Mae'r cyfryw incwm yn ei hanfod yn anwadal. Mae'r Blaid hefyd yn dibynnu ar gefnogaeth gyson ei bancwyr.

Mae'r Trysorydd Cenedlaethol wedi adolygu'r cyllidebau gwariant a'r rhagfynegiadau llif arian ar gyfer y blaid o'r cyfnod at fis Rhagfyr 2012 ac y mae'n fodlon y bydd digon o incwm aelodaeth, incwm codi arian ac arian o ffynonellau eraill ar gael i'r blaid ateb ei hymrwymiaadau ariannol a chyrraedd ei amcanion trefniadol a gwleidyddol. Ar y sail hon mae'r Trysorydd Cenedlaethol yn ystyried ei bod yn briodol paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Sail cyfuno

Ym mis Chwefror 2010, gostyngodd Plaid Cymru nifer yr unedau cyfrifo yng Nghymru trwy broses o uno a chyfuno. Unodd y rhan fwyaf o unedau gyda'r unedau cyfrifol lleol, ac y maent yn dal yn atebol i'r Comisiwn Etholiadol yn unigol. Nid yw'r unedau cyfrifo hyn wedi eu cyfuno i'r cyfrifon hyn. Gadawodd yr uno 5 pwyllgor rhanbarthol a 5 adran o'r blaid i'w cymryd dan reolaeth Plaid Cymru, y blaid gwleidyddol ganolog. Dyma'r rhanbarthau a'r adrannau a gynhwysir yn y cyfrifon cyfun hyn:

- Cymdeithas y Cynghorwyr
- Cymru X
- Adran y Menywod
- Undeb
- Adran Cydraddoldeb
- Pwyllgor Canol De Cymru
- Pwyllgor Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Pwyllgor Dwyrain De Cymru
- Pwyllgor Gorllewin De Cymru
- Pwyllgor Gogledd Cymru

Nid oes gan y blaid yn ganolog unrhyw fuddsoddiad yn y pwyllgorau na'r adrannau hyn.

Mae'r ffigyrau cymharol am y cyfrifon hyn yn adlewyrchu Plaid Cymru fel un endid (y Blaid yn Ganolog), gan nad oedd y Blaid yn rheoli'r pwyllgorau a'r adrannau hyn y flwyddyn cynt.

Mae'r cyfrifon am y rhanbarthau a'r adrannau sydd bellach wedi eu cyfuno yn cael eu cynhyrchu yn bennaf ar sail cyfrifo arian yn hytrach nac ar sail cronni. Ni ystyriwyd y buasai ail-ddatgan y canlyniadau hyn ar sail cronni, am y cyfnod ers sefydlu rheolaeth, yn cael effaith sylweddol ar y canlyniadau am y flwyddyn.

PLAID CYMRU

Nodiadau am y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010

Incwm

Cydnabyddir incwm pan atebwyd yr holl amodau canlynol:

- Fod gan y blaid yr hawl i'r ased;
- Fod sicrwydd rhesymol y derbynir yr ased; a
- Fod modd mesur gwerth yr ased yn weddol sicr.

Mae cymhwyso'r meini prawf hyn i fathau penodol o incwm yn arwain at y driniaeth a ganlyn:

- Cydnabyddir rhoddion o asedau mewn arian a buddsoddiadau rhydd yn ôl gwerth y farchnad yn y cyfrif incwm a gwariant adeg eu derbyn.
- Cydnabyddir grantiau yn y cyfrif incwm a gwariant pan atebwyd amodau eu derbyn.
- Cydnabyddir ffioedd aelodaeth a thanysgrifiadau nad ydynt yn ddyledus yn y cyfrif incwm a gwariant yn y cyfnod y mae a wnelont ag ef.
- Cydnabyddir cymynroddion pan fo cynrychiolwyr personol yr ymadawedig wedi hysbysu'r blaid am y gymynrodd, eu bod wedi derbyn grant cynrychiolaeth ac nad oes unrhyw faterion o bwys heb eu datrys parthed union raniad yr ystâd.
- Cydnabyddir llog sydd i'w dderbyn ac incwm rhent yn y cyfrif incwm a gwariant ar sail groniodol.

Eiddo Buddsoddi

Mae'r eiddo buddsoddi ac eiddo arall yn golygu tir ac adeiladau a ddelir fel buddsoddiadau tymor hir gan y blaid. Fe'u cludir yn ôl prisiau proffesiynol, neu os cafwyd hwy yn ddiweddar, ar gost.

Ni ddarperir dadbrisiad nac amorteiddio parthed eiddo buddsoddi ac eiddo arall. Mae'r holl eiddo yn destun adolygiad nam blynyddol a gynhelir gan swyddogion y blaid.

Bob pumed flwyddyn, cynhelir prisiau proffesiynol llawn. Hefyd, os bydd yr adolygiadau nam blynyddol yn nodi gwahaniaeth sylweddol, yna cynhelir prisiau llawn. Ym marn y blaid, mae'r polisi cyfrifo hwn yn golygu bod y datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg.

Dadbrisi

Darperir dadbrisiad ar yr holl asedau sefydlog diriaethol ac eithrio tir rhydd-ddaliad ar y cyfraddau blynyddol a ganlyn er mwyn lleihau gwerth pob ased dros amcangyfrif o'i einioes fuddiol:

Eiddo Prydles Hir	-2% llinell syth y flwyddyn
Fficiadau a Chyfarpar	-25% llinell syth y flwyddyn
Gwelliannau i Eiddo	-10% llinell syth y flwyddyn

Caiiff yr angen am ysgrifennu i lawr nam ar unrhyw ased sefydlog ei asesu trwy gymharu gwerth cludo'r ased yn erbyn yr uchaf o'i werth realeiddio neu werth ei ddefnyddio.

Sail Trethiant

Trinnir y Blaid fel cymdeithas anghorfforedig at ddibenion treth ac y mae felly'n atebol am dreth gorfforaeth ar ei incwm buddsoddi. Fe'i trethir hefyd ar unrhyw drafodion buddsoddi sy'n esgor ar enillion cyfalaf. Ni chydabyddir unrhyw dreth ohiriedig am fod incwm buddsoddi yn cael ei drethu ar yr un sail â'i gydnabod yn y cyfrif incwm a gwariant.

Prydlesi Gweithredol

Mae rhenti a godir ac a dderbynir dan brydlesi gweithredol yn cael eu gosod neu eu credydu i'r cyfrif incwm a gwariant ar sail llinell syth dros dymhorau'r prydlesi.

Treth Ar Werth

Mae'r blaid wedi ei chofrestru at ddibenion Treth Ar Werth (TAW) ond mae'n atebol ar drafodion y gellir codi amdanynt yn unig. Cytunwyd ar fformiwla eithrio rhannol gydag Adran Refeniw a Thollau EM ac adenillwyd TAW. Cynhwysir gwerth y TAW nad oes modd ei adennill yn y categorïau gwariant perthnasol yn y cyfrif Incwm a Gwariant.

PLAID CYMRU

Nodiadau am y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

2. RHODDION

Cyfun a Chanolog

Yn ystod y flwyddyn derbyniodd y blaid roddion mwy na £500 (2009: Mwy na £200) gan roddwyr a ganiateir (fel y'u diffinnir gan adran 54 y Ddeddf) oedd yn gyfanswm o £49,953 (2009 - £38,094).

Dan DPGER, mae'n rhaid adrodd i'r Comisiwn Etholiadol am roddion unigol neu gronedig sydd dros £5,000 gan unigolyn mewn unrhyw flwyddyn galendr.

3. INCWM O WEITHGAREDDAU CODI ARIAN

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Etholiadau ac ymgyrchoedd	11,368	17,743
Clwb 500	8,264	8,684
Clwb y Llywydd	4,500	5,090
	<u>24,132</u>	<u>31,517</u>

4. INCWM O WEITHGAREDDAU MASNACHOL

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Nwyddau a digwyddiadau	11,105	8,950
Incwm ysgol haf	1,404	-
	<u>12,509</u>	<u>8,950</u>

5. INCWM BUDDSODDIADAU

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Incwm rhent (tenantiaid allanol)	<u>12,000</u>	<u>13,200</u>

6. INCWM GRANT

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Grantiau'r Uned Datblygu Polisi	<u>147,414</u>	<u>156,612</u>

7. INCWM MEWN ENW

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Llog a dderbyniwyd	<u>16</u>	<u>25</u>

PLAID CYMRU

Nodiadau am y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

8. (DIFFYG)/GWARGED CYN TRETH

Datgenir y (Diffyg) / Gwarged cyn treth wedi codi / (credydu):

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Talu archwilwyr – gwasanaethau archwilio	4,500	3,500
Talu archwilwyr – gwasanaethau heb fod yn archwilio	1,650	1,300
Prydles weithredol - cyfarpar	1,962	1,685
Nam eiddo prydles hir	86,969	-
Dadbriso	18,767	19,697

9. INCWM ARALL

	Cyfun		Canolog	
	2010	2009	2010	2009
	£	£	£	£
Breindaliadau a chomisiynau	317	1,463	317	1,463
Cyfraniadau cyflog staff allanol	33,593	28,701	33,593	28,701
Incwm amrywiol	8,833	1,767	-	1,767
Cofrestriadau Etholaethau, Canghennau ac Adrannau	55,284	53,894	55,284	53,894
	<u>98,027</u>	<u>85,825</u>	<u>89,194</u>	<u>85,825</u>

10. COST GWEITHGAREDDAU CODI ARIAN

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Apeliadau a rhoddion	7,992	10,011
Gwobrau Clwb 500	3,920	3,084
	<u>11,912</u>	<u>13,095</u>

11. COSTAU STAFF A THALIADAU I STAFF

Cyfartaledd nifer y staff a gyflogwyd gan y blaid yn ganolog yn ystod y flwyddyn oedd 15 (2009 - 14). Ni chyflogwyd unrhyw staff gan y rhanbarthau na'r pwyllgorau. Dyma'r costau staff am yr uchod:

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Cyflogau	347,032	299,457
Costau nawdd cymdeithasol	30,330	25,302
Costau staff eraill	6,817	2,243
Costau pensiwn eraill	31,154	26,840
	<u>415,333</u>	<u>353,842</u>

Ni dderbyniodd unrhyw aelod o staff daliad o fwy na £50,000.

PLAID CYMRU

**Nodiadau am y datganiadau ariannol
am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010**

12. GWARIANT YMGYRCHOEDD

	Cyfun		Canolog	
	2010 £	2009 £	2010 £	2009 £
Etholiad Cyffredinol	80,970	22,829	79,220	22,829
Etholiad Y Cynulliad	36,660	23,754	36,660	23,754
Etholiadau'r Undeb Ewropeaidd	-	65,274	-	65,274
Gwariant Ymchwil	71,850	59,423	71,850	59,423
Isetholiadau	-	70	-	70
	<u>189,480</u>	<u>171,350</u>	<u>187,730</u>	<u>171,350</u>

13. GWARIANT ARALL

	Cyfun		Canolog	
	2010 £	2009 £	2010 £	2009 £
Treuliau teithio	12,067	9,976	10,769	9,976
Rhent, trethi a chyfleustodau	17,745	14,097	17,372	14,097
Yswiriannau	2,073	3,830	2,073	3,830
Postio, argraffu a nwyddau papur	17,425	14,406	15,703	14,406
Teliffon, ffacs ac e-bost	7,631	7,374	7,631	7,374
Costau cyfrifiadur	5,640	-	5,640	-
Hyfforddi staff	1,289	2,611	1,289	2,611
Taliadau prydlesu a thrwsio cyfarpar	16,260	16,021	16,260	16,021
Glanhau'r swyddfa	4,284	4,198	4,284	4,198
Costau ymchwil a chostau uniongyrchol ymchwil a datblygu polisi	13,546	17,624	13,546	17,624
Trwyddedau a thanysgrifiadau	4,633	8,072	4,633	8,072
Gwariant ar y wasg	3,023	1,767	3,023	1,767
Manion	2,755	9,294	2,151	9,294
Cyfrifeg	2,763	1,349	2,763	1,349
Archwilio	4,500	3,500	4,500	3,500
Ffioedd proffesiynol	7,743	-	7,403	-
	<u>123,377</u>	<u>114,119</u>	<u>119,040</u>	<u>114,119</u>

14. LLOG A THALIADAU TALADWY

	Cyfun		Canolog	
	2010 £	2009 £	2010 £	2009 £
Taliadau banc	5,492	3,847	5,460	3,847
Gorddrafft banc, prydlesu a llog ar fenthyciad	2,095	1,421	2,095	1,421
	<u>7,587</u>	<u>5,268</u>	<u>7,555</u>	<u>5,268</u>

PLAID CYMRU

Nodiadau am y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010

15. TRETHIANT

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Treth gorfforaeth	1,939	2,289
Gorddarpariaeth am y flwyddyn flaenorol	-	(9,140)
Trethiant y DG – ad-dalu treth enillion cyfalaf	(26,481)	-
	<u>(24,542)</u>	<u>(6,851)</u>

Mae a wnelo'r ad-daliad mewn treth enillion cyfalaf ar werthu Ty Gwynfor yn Park Place yn 2008.

Gwneir darpariaeth parthed treth gorfforaeth yn codi yn y cyfnod ar weithgareddau'r Blaid sydd yn destun y cyfryw dreth.

Ffactorau a all effeithio ar newidiadau treth yn y dyfodol

Nid yw gwerth eiddo buddsoddi yn sylweddol wahanol i'r gost hanesyddol. O'r herwydd, ni ddisgwylir y byddwn yn atebol am lawer o dreth os gwerthir yr eiddo. Fodd bynnag, ni ragwelir y byddwn yn gwerthu unrhyw beth a all ein gwneud yn atebol am swm sylweddol o dreth yn y dyfodol rhagweladwy.

16. ASEDAU SEFYDLOG DIRIAETHOL – CYFUN A'R BLAID YN GANOLOG

	Eiddo Prydles Hir £	Eiddo Buddsoddi £	Ffitiadau a chyfarpar £	Cyfanswm £
COST NEU BRISIAD				
Ar 1 Ionawr 2010	337,460	126,123	106,110	569,693
Ychwanegiadau	-	-	18,900	18,900
Ailbrisió	(103,125)	-	-	(103,125)
Ar 31 Rhagfyr 2010	<u>234,335</u>	<u>126,123</u>	<u>125,010</u>	<u>485,468</u>
DADBRISIO				
Ar 1 Ionawr 2010	13,498	-	82,756	96,254
Tâl am flwyddyn	5,718	-	13,049	18,767
Ailbrisió	(16,156)	-	-	(16,156)
Ar 31 Rhagfyr 2010	<u>3,060</u>	<u>-</u>	<u>95,805</u>	<u>98,865</u>
GWERTH LLYFR NET				
Ar 31 Rhagfyr 2010	<u>231,275</u>	<u>126,123</u>	<u>29,205</u>	<u>386,603</u>
Ar 31 Rhagfyr 2009	<u>323,962</u>	<u>126,123</u>	<u>23,354</u>	<u>473,439</u>

Ail-brisiwyd yr Eiddo Prydles a adwaenir fel unedau 13 & 14, Admirals Landing, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd ar 12 Gorffennaf 2010 gan y prisiwr annibynnol Hirons Morgan & Yapp. Adlewyrchwyd nam o £86,969 yn y Cyfrif Incwm a Gwariant. Prisiwyd yr eiddo buddsoddi gan swyddogion y Blaid ar 31 Rhagfyr 2010 ac ni ystyrir bod gwerth y farchnad yn sylweddol wahanol i'r gost hanesyddol.

PLAID CYMRU

**Nodiadau am y datganiadau ariannol
am y flwyddyn yn diweddu 31 Rhagfyr 2010**

17. DYLEDWYR: SYMIAU YN DOD YN DDYLEDUS YMHEN UN FLWYDDYN

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Dyledwyr masnachol	7,758	9,508
Symiau dyledus gan unedau cyfrifo	7,080	6,736
Dyledwyr grant	-	11,308
Cymynroddion	50,000	90,506
Rhagdaliadau a TAW adenilladwy	564	12,623
	<u>65,402</u>	<u>130,681</u>

18. CREDYDWYR: SYMIAU YN DOD YN DDYLEDUS YMHEN UN FLWYDDYN

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Gorddrafft banc	41,296	-
Credydwy'r masnachol	16,706	16,876
Credydwy'r eraill	3,000	4,000
Trethiant a Nawdd Cymdeithasol	12,669	12,534
Croniadau	16,255	3,000
TAW	194	-
	<u>90,120</u>	<u>36,410</u>

19. DYLEDION SICREDIG

Cynhwysir y dyledion sicredig canlynol yn y credydwy'r

	Cyfun a Chanolog	
	2010	2009
	£	£
Gorddrafft banc	<u>41,296</u>	-

Mae'r gorddrafft banc wedi ei sicrhau trwy arwystl cyfreithiol cyntaf dros yr Eiddo Prydles a adwaenir fel unedau 13 a 14, Admirals Landing, Glanfa'r Iwerydd, Caerdydd. Mae'r cyfleuster i'w adnewyddu ar 15 Tachwedd 2011.

20. CYSONI'R CRONFEYDD WRTH GEFN - CYFUN

	Cronfa gyffredinol wrth gefn	Cronfa wrth gefn yr uned ddatblygu polisi	Cyfanswm
	£	£	£
Ar 1 Ionawr 2009	571,651	3,232	574,883
Gwarged am y flwyddyn	<u>36,674</u>	-	<u>36,674</u>
Ar 1 Ionawr 2010	608,325	3,232	611,557
Diffyg am y flwyddyn	(241,052)	-	(241,052)
Cafwyd ar reoli rhanbarthau ac adrannau	8,430	-	8,430
Ar 31 Rhagfyr 2010	<u>375,703</u>	<u>3,232</u>	<u>378,935</u>

PLAID CYMRU

**Nodiadau am y datganiadau ariannol
am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010**

CYSONI'R CRONFEYDD WRTH GEFN - Y BLAID YN GANOLOG

	Cronfa gyffredinol wrth gefn	Cronfa wrth gefn yr uned ddatblygu polisi	Cyfanswm
	£	£	£
Ar 1 Ionawr 2009	571,651	3,232	574,883
Gwarged am y flwyddyn	36,674	-	36,674
Ar 1 Ionawr 2010	608,325	3,232	611,557
Diffyg am y flwyddyn	(247,522)	-	(247,522)
Ar 31 Rhagfyr 2010	360,803	3,232	364,035

21. ARIAN NET (ALLAN)/I MEWN O WEITHGAREDDAU'R BLAID

	Cyfun	
	2010	2009
	£	£
(Diffyg)/Gwarged Net am y flwyddyn	(265,594)	29,823
Gostyngiad)/(Cynnydd) mewn dyledwyr	65,279	(48,666)
Cynnydd mewn credydwyr	10,475	3,625
Nam asedau sefydlog	86,968	-
Dadbriso	18,767	19,697
Llog a Thaliadau	7,587	5,268
Arian net (allan)/i mewn o Weithgareddau'r Blaid	(76,518)	9,747

22. CYSONI'R LLIF ARIAN (ALLAN)/I MEWN NET I SYMUDIAD YN Y DDYLED NET

	Cyfun	
	2010	2009
	£	£
Gostyngiad mewn arian yn y flwyddyn	(68,093)	(58,114)
Llif arian net i mewn o symudiad yn y ddyled net	-	5,324
Newid yn y ddyled net yn codi o lifau arian	(68,093)	(52,790)
Dyled Net Wrth Agor	43,847	96,637
Dyled Net Wrth Gloi	(24,246)	43,847

23. DADANSODDIAD O DDYLED NET

Cyfun

	I Ionawr	Cafwyd ar reoli rhanbarth au ac adrannau	Llif Arian	31 Rhagfyr
	2010			2010
	£	£	£	£
Arian	43,847	8,431	(35,228)	17,050
Gorddrafftiau	-	-	(41,296)	(41,296)
	43,847	8,431	(76,524)	(24,246)
Benthyciadau eraill	-	-	-	-
Cyfanswm	43,847	8,431	(76,524)	(24,246)

PLAID CYMRU

Nodiadau am y datganiadau ariannol am y flwyddyn yn diwedd 31 Rhagfyr 2010

24. CYMYNRODD A DDERBYNIWYD WEDI DIWEDD Y FLWYDDYN

Yr oedd y gymynrodd a gynhwysir fel dyledwr yn nodyn 17 yn dal heb ei dalu adeg llofnodi'r cyfrifon hyn.

25. YMRWYMIADAU PRYDLES WEITHREDOL

Mae'r taliadau prydles weithredol isod wedi eu hymrwymo i'w talu ymhen blwyddyn:

Cyfun a Chanolog

	Prydlesi gweithredol eraill	
	2010	2009
	£	£
Dod i ben:		
Ymhen blwyddyn	-	1,263
Mwy na phum mlynedd	<u>2,276</u>	<u>-</u>
	<u>2,276</u>	<u>1,263</u>

26. TRAFODION CYSYLLTIEDIG Â'R BLAID

Yn ystod y flwyddyn, talwyd £3,790 i Adam Price (cyn-AS a ymddiswyddodd yn y cyfnod cyn etholiad cyffredinol 2010). Yr oedd dau daliad ar wahân yn y swm a dalwyd, a wnaed mewn perthynas â gwaith ar bapur datblygu polisi a threuliau etholiad San Steffan.

27. DIGWYDDIADAU WEDI'R FANTOLEN

Ymddiswyddodd y Dr Gwenllïan Lansdown fel Prif Weithredwr ar 31 Mai 2011. Penodwyd ei holynydd, Rhuanedd Richards, a daw i'w swydd ar 1 Medi 2011.